Dylai pob awdurdod barhau i sicrhau bod ei gronfeydd wrth gefn yn ddigonol ar gyfer anghenion wedi'u cynllunio neu ddigwyddiadau annisgwyl, heb osod cyfyngiadau gormodol ar wariant presennol. At hynny, gallai rhai cynghorau fod yn llai awyddus i gymryd risgiau'n ymwneud â'u strategaethau ar gyfer eu cronfeydd wrth gefn neu eu cynlluniau ar gyfer buddsoddiad ychwanegol penodol mewn gwasanaethau.

Grantiau busnes ac unrhyw danwariant

O ran y grantiau busnes, roedd rhai Awdurdodau Lleol wedi tanwario yn ystod y cylchoedd ariannu ers mis Ebrill 2020, ac roedd rhai eraill wedi gorwario. Rydym wedi cysylltu â phob Awdurdod Lleol, ac mae unrhyw danwariant cyfun wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y gronfa gwerth £120m a gyhoeddwyd yn ddiweddar mewn ymateb i'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith ar 26 Rhagfyr 2021. Cynhelir ymarfer arall ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i adennill unrhyw danwariant o'r cylch ariannu diweddaraf hwn.

CYNGHORAU CYMUNED A THREF

Yr wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref

Pan oeddwn yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor, gofynnwyd am yr wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig am y meysydd i weithredu arnynt mewn ymateb i argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn ddiweddar wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Tai a Llywodraeth Leol am y meysydd i weithredu arnynt. Mae'r wybodaeth hon yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf ac rwyf yn ei hatodi i'r llythyr hwn ar ffurf Atodiad.

Gwybodaeth a gedwir gan y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a'r ymateb i'r cynigion ar gymwysterau ar gyfer clercod

Rydym wedi cysylltu â'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol i drafod y data a gedwir ganddi ar lefelau cymwysterau clercod cynghorau cymuned. Mae wedi cadarnhau ar 1 Rhagfyr 2021 fod 73 o glercod â Thystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA), pedwar clerc â chymhwyster Lefel 4 (hy Tystysgrif Addysg Uwch) a dau â chymhwyster Lefel 6 (hy BA (Anrh)). Gall clerc fod â mwy nag un cymhwyster.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 24 Medi 2021 mewn perthynas â chynigion i bennu'r cymwysterau sydd eu hangen ar glerc cymuned er mwyn i'r cyngor benderfynu ei fod yn gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 3 Rhagfyr ac mae ar gael yn y ddolen isod. Gosodwyd y rheoliadau wedyn ar 13 Rhagfyr 2021 a byddant yn dod i rym ar 5 Mai 2022. Cafwyd cefnogaeth eang ar gyfer y cymwysterau a nodwyd yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys cymhwyster CiLCA.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-12/crynodeb-o%E2%80%99r-ymatebion.pdf>

Cymorth i helpu'r aelodau i ddeall eu dyletswyddau fel cyflogwyr corfforaethol y clercod, o ran eu hawliau cyflogaeth

Mae amrywiaeth o gymorth ar gael i'r aelodau – rhai presennol a rhai newydd – i'w helpu i ddeall eu dyletswyddau fel cyflogwyr corfforaethol clercod o ran eu hawliau cyflogaeth. Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant i bob cyngor sy'n trafod y cyngor fel cyflogwr. Mae Strategaeth Hyfforddiant Cymru i gynghorau cymuned a thref, a ddatblygwyd ar y cyd â phartneriaid yn y sector drwy'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant, yn nodi y bydd disgwyl i gynghorwyr gymryd y modiwl hwn yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y swydd fel un o gymwyseddau craidd y rôl. Drwy hyn, yn ogystal â'r ddyletswydd ar gynghorau i ddatblygu cynllun hyfforddiant o dan a67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, rydym yn weddol hyderus y bydd cynghorwyr yn rhoi blaenoriaeth i'r hyfforddiant hwn. Hefyd, mae Canllaw y Cynghorydd Da ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref, a gaiff ei ddiweddarau ar gyfer cynghorwyr newydd, yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr i gynghorwyr am eu dyletswyddau, gan gynnwys eu dyletswyddau fel cyflogwyr.

Byddwn yn falch o ddarparu rhagor o wybodaeth neu eglurder ar unrhyw un o'r pwyntiau uchod.

Yn gywir



Tracey Burke

Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/616 /21

John Griffiths AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCymunedau@senedd.cymru

30 Hydref 2021

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth am rai o'r materion a drafodwyd gennym pan ddeuthum i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 22 Medi.

Yn y cyfarfod, addewais roi rhagor o fanylion am waith Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (y Panel). Y Panel yw'r corff annibynnol sydd â'r brif swyddogaeth o wneud penderfyniadau ar y cyflogau a'r taliadau y mae prif gynghorau, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yn eu gwneud i'w haelodau etholedig. Mae ei bwerau hefyd yn cynnwys gwneud argymhellion ar unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflogau prif weithredwyr prif gynghorau a phrif swyddogion tân.

Mae cylch gwaith presennol y Panel yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau tref a chymuned, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Mae pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Panel yn gyfyngedig, ac fe'u nodir ym Mesur 2011, ac yn Neddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015").

Er mwyn arfer ei swyddogaeth, mae'r Panel:

- Yn cynnal deialog rheolaidd ag aelodau a swyddogion y cyrff y mae'n gyfrifol am bennu cydnabyddiaeth ariannol ar eu cyfer;
- Yn cynnal dadansoddiad o newidiadau mewn strwythurau cydnabyddiaeth cymaradwy priodol;
- Yn ystyried unrhyw faterion penodol a allai effeithio ar y lefel briodol o gydnabyddiaeth ariannol i'r cyrff dan sylw;

- Ymgysylltu â chyrrff perthnasol yng Nghymru mewn perthynas â chydabyddiaeth cynrychiolwyr etholedig, h.y. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru.

Mae'n ofynnol i'r Panel lunio adroddiad blynyddol, sy'n rhagnodi'r taliadau a'r lwfansau i gynghorwyr ac aelodau'r sefydliadau a restrir uchod, a gall lunio Adroddiadau Atodol ar unrhyw adeg y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol. Wrth baratoi ei adroddiadau, mae'n ofynnol i'r Panel ystyried effaith ariannol debygol ei benderfyniadau ar yr awdurdod o dan sylw.

Ar hyn o bryd mae'r Panel yn ymgynghori ar ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/2023. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 26 Tachwedd ac ar ôl hynny bydd y Panel yn ystyried unrhyw sylwadau a fydd yn llywio penderfyniadau ynghylch penderfyniadau terfynol a chynnwys yr Adroddiad terfynol. Gellir gweld yr ymgynghoriad [yma](#).

Addewais hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith o ymateb i argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.

Er mai argymhellion i bob sector eu hystyried a'u datblygu oedd y rhain, nododd Llywodraeth Cymru nifer o gamau allweddol yr oedd yn bwriadu eu cymryd i ymateb. Rhoddodd y Gweinidog blaenorol ddiweddariad ysgrifenedig ar waith Llywodraeth Cymru gyda'r sector cynghorau cymuned a thref, a'r cymorth iddo, ym mis Mawrth 2020 [[dolen](#)]. Rwyf wedi atodi diweddariad manylach ar y cynnydd o ran y meysydd gweithredu yn **Atodiad A**. Fel yr amlinellwyd yn y datganiad ysgrifenedig, mae rhai cwestiynau heb eu datrys o hyd wedi'u codi gan yr adolygiad ac mae angen eu hystyried ymhellach. Mae'r angen i ganolbwyntio ar y pandemig wedi achosi oedi cyn y gellir rhoi ystyriaeth briodol iddynt. Rwy'n bwriadu ailedrych ar y cwestiynau hyn ystod tymor y Senedd hon, gan weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu cynigion clir, y gallai fod angen deddfwriaeth bellach ar gyfer rhai ohonynt.

Roeddech yn gofyn am ragor o fanylion am y cymorth sydd ar gael i glercod cynghorau, gan gynnwys pecynnau hyfforddi i bobl sy'n newydd i'r rôl, ac a oes unrhyw waith yn cael ei wneud neu'n cael ei gynllunio i ddiweddarau disgrifiadau swydd er mwyn sicrhau bod gan ymgeiswyr ddealltwriaeth glir o'r rôl a bod ganddynt brofiad perthnasol.

O ran cymorth Llywodraeth Cymru, yn 2021-22, rydym wedi dyrannu tua £70,000 i ddarparu cyllid ar gyfer cost lawn ymgymryd â'r Dystysgrif mewn Gweinyddu Cynghorau Lleol (CiLCA) ar gyfer tua 70 o glercod. Rydym hefyd yn darparu tua £2k ar gyfer hyfforddiant cyffredinol ychwanegol i glercod, er enghraifft, i glercod newydd yn eu swyddi ymgymryd â Chyflwyniad i Weinyddu Cynghorau Lleol (ILCA); ac anghenion datblygu proffesiynol parhaus eraill. I roi rhywfaint o gyd-destun: yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, gwnaethom gynnig £6k a £3k yn y drefn honno i gefnogi ac ysgogi hyfforddiant clercod ac ni chafodd y rhain eu gwario'n llawn. Rwy'n agored i gynyddu'r cyllid sydd ar gael pe bai'r galw'n cynyddu, ac rwy'n gweithio gydag Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) i annog hyn. Bydd y gofyniad newydd i gynghorau cymuned gyhoeddi cynlluniau hyfforddi yn rhoi cipolwg ar eu hanghenion hyfforddi.

Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yw'r corff proffesiynol ar gyfer clercod cynghorau lleol ac mae'n cynorthwyo ei aelodau i ennill yr wybodaeth, yr hyfforddiant a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer eu rôl. Mae'n cynnig gwasanaeth mentora ar gyfer clercod newydd yng Nghymru. Mae'n cynnal dau weminar bob blwyddyn sydd wedi'u hanelu'n benodol at glercod newydd ac yn cynhyrchu taflen wirio i gefnogi clercod sydd wedi dechrau yn eu rôl

yn ddiweddar. Maent yn rhoi cyngor ar rôl a disgrifiad swydd y clerc, gan gynnwys disgrifiad swydd enghreifftiol. Mae Un Llais Cymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a deallwn y byddai hyn yn cynnwys cymorth i gynghorau sy'n dymuno penodi clerc newydd.

Roeddech yn gofyn hefyd am ragor o wybodaeth am y trefniadau i sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) yn atebol yn ddemocrataidd.

Nod CBCau yw dod â mwy o gydlyniant i drefniadau llywodraethu rhanbarthol, a chael gwared ar rywffaint o gymhlethdod y trefniadau llywodraethu rhanbarthol - cryfhau atebolrwydd democrataidd lleol drwy sicrhau mai aelodau etholedig lleol sy'n gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd am wasanaethau llywodraeth leol mewn modd agored a thryloyw ac er budd eu dinasyddion a'u cymunedau. Bydd arweinwyr pob cyngor cyfansoddol yn aelodau o'r CBCau a byddant yn atebol i'w cynghorau cyfansoddol am y penderfyniadau a wnânt fel rhan o'u CBC.

Bydd yn ofynnol i CBC sefydlu trefniadau trosolwg a chraffu priodol gan ymgynghori a chytuno â'i gynghorau cyfansoddol. Bydd hyn yn rhan bwysig o atebolrwydd democrataidd y CBC. Bydd hefyd yn ofynnol i CBC gael ei is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio ei hun a fydd â'r un swyddogaethau ag un mewn awdurdod lleol - gan gynnwys adolygu a chraffu ar faterion ariannol, rheoli risg a rheolaeth fewnol CBC.


Mae atebolrwydd cyhoeddus hefyd yn elfen allweddol o sicrhau atebolrwydd democrataidd CJC. Bydd yn ofynnol i CBC annog y cyhoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, gan sicrhau bod unigolion yn gallu cyfrannu at lunio gwasanaethau y maent hwy a'u teuluoedd yn dibynnu arnynt ac sy'n cael effaith sylweddol ar eu bywydau bob dydd. Bydd y cyhoedd hefyd yn gallu cael mynediad i gyfarfodydd CBC, gan gynnwys cyfarfodydd gwyllo, yn yr un modd ag y maent ar hyn o bryd ar gyfer awdurdodau lleol.

Bydd swyddogion Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un gofynion o ran ymddygiad, tryloywder ac atebolrwydd â chyflogeion awdurdodau lleol.

Yn olaf, yn ystod y cyfarfod cyfeiriais at *Ddiwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Adroddiad Canfyddiadau* a dywedais y byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor ar yr opsiynau a nodwyd. <https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-yng-nghymru-crynodeb-or-canfyddiadau>

Rwyf wedi ysgrifennu ar wahân atoch chi a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch y dyraniadau ariannol a wnaed o'r £2 biliwn heb ei neilltuo yng nghyllideb atodol mis Mehefin.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Atodiad A – Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Meysydd Gweithredu Llywodraeth Cymru - Diweddariad Hydref 2021

THEMA 1: Egluro rôl y sector

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'n gyson y rôl bwysig y mae'n ei gweld ar gyfer y sector, a amlygwyd gan y cyfraniad a wnaed at ymateb i'r pandemig a chefnogi eu cymunedau. Rydym wedi deddfu i roi'r potensial i gyngorau cymuned a thref chwarae rhan fwy sylweddol a mwy gweladwy yn eu cymunedau.

Er enghraifft, rydym wedi rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol newydd i gyngorau cymuned a thref drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Rydym hefyd wedi gosod gofyniad newydd ar y sector i ystyried sut maent yn ymgysylltu, yn cynllunio, yn cynnal ac yn adrodd i'w hetholwyr drwy gyflwyno adroddiadau blynyddol.

Rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd â chyngorau cymuned a thref drwy ddiwyddiadau cenedlaethol a drefnir gan Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol ac Un Llais Cymru. Mae Un Llais Cymru yn gweithio gyda chymunedau'n lleol i hyrwyddo gwerth cyngorau cymuned. Credwn fod hon yn rôl sy'n gweddu orau i'r rhai sydd agosaf at y cymunedau. Ein rôl ni yw eu cefnogi i lywodraethu'n dda.

Mae ein partneriaid yn y sector yn bwrw ymlaen â gwaith i egluro rolau o ran y gwasanaethau y gallai cyngorau cymuned a thref eu darparu. Mae Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i drosglwyddo asedau a dirprwyo gwasanaethau, a datblygu cynllunio'n seiliedig ar leoedd. Rydym yn cytuno â hwy y dylai penderfyniadau ynghylch egluro 'pwy sy'n gwneud beth' gael eu gwneud yn lleol yn hytrach na chael eu gorfodi gan lywodraeth genedlaethol.

THEMA 2: Gwella democratiaeth a chyfranogi

Argymhellodd yr adolygiad y dylid adolygu ffiniau cymunedol yn rheolaidd. Argymhellodd hefyd y dylid cymryd camau i wella'r mynediad democrataidd at gyngorau a'r cyfle i gymryd rhan ynddynt.

Mae defnyddio'r pwerau presennol i sicrhau bod Adolygiadau Cymunedol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn ymateb cymesur i sicrhau bod ffiniau unigol yn parhau'n berthnasol. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru newydd gwblhau cylch o arolygon etholiadol a fydd yn dod i rym cyn yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf. Mae rhai o'r rhain wedi gwneud newidiadau i drefniadau cyngorau cymuned, ac mae argymhellion yr adolygiad cymunedol yn Sir Fynwy hefyd yn cael eu gweithredu. Ar ôl cwblhau'r ymarfer hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i edrych yn ôl ar y broses a chynllunio ar gyfer y cylch nesaf. Er enghraifft, efallai y byddai'n synhwyrol adolygu amseriad adolygiadau cymunedol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau mewn da bryd i hysbysu'r adolygiadau etholiadol.

O ran ymgysylltu â'u cymunedau a chynyddu cyfranogiad, rydym yn annog cyngorau cymuned a thref i wneud mwy o ddefnydd o adnoddau a llwyfannau sydd

Atodiad A – Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru Meysydd Gweithredu Llywodraeth Cymru - Diweddariad Hydref 2021

ar gael am ddim. Rydym wedi darparu cymorth penodol drwy ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd gan gyngorau cymuned a thref i baratoi a chyhoeddi canllaw i'r cyfryngau digidol, [Cysylltu â'ch Cymuned Leol](#) ym mis Ionawr 2021.

Er mwyn gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd a mynediad at waith cyngorau cymuned a thref, darparodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i gyngorau cymuned wneud trefniadau i alluogi mynediad rhithwir i gyfarfodydd y cyngor. O ran cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd, ymddengys nad yw cynnal cyfarfodydd cyhoeddus blynyddol yn cael llawer o effaith o ran cyfranogiad y cyhoedd yn Lloegr. Felly, rydym wedi mabwysiadu dull mwy rheolaidd - o fis Mai 2022 ymlaen, bydd gan aelod o'r cyhoedd hawl i wneud sylwadau rhesymol ar eitem fusnes mewn unrhyw gyfarfod cyngor cymuned a thref. Teimlwn y bydd hyn yn dileu rhwystrau i aelodau cymunedau ymgysylltu â'u cyngor.

Rydym hefyd wedi cymryd camau i annog mwy o bobl i sefyll etholiad i gyngorau cymuned a thref. Ym mis Hydref, lansiodd Cronfa Mynediad i Swyddfa Etholedig i gefnogi ymgeiswyr anabl sydd am geisio cael eu hethol yn etholiadau llywodraeth leol y flwyddyn nesaf. Mae'r gronfa'n talu am gymorth ymarferol i ganiatáu i bobl anabl gymryd rhan lawn yn y broses wleidyddol.

Rydym wedi ariannu Un Llais Cymru i ddatblygu ffilmiau hyrwyddo i'w rhannu ar draws amrywiaeth o lwyfannau cyfryngau.

Rydym yn cydnabod bod y gwaith hwn yn broses gyson a pharhaus. Er mwyn llywio ein gwaith ar hyn yn y dyfodol rydym wedi:

- Llunio arolwg ar gyfer cyngorwyr cymuned i gael gwybod mwy am eu profiadau a'r hyn sy'n eu rhwystrro, i lywio cam nesaf y gwaith hwn;
- Comisiynu adolygiad llenyddiaeth o gydnabyddiaeth ariannol cyngorwyr mewn gwledydd eraill;
- Comisiynu arolwg omnibws er mwyn deall canfyddiad y cyhoedd o gyngorau a chynghorwyr yn well.

THEMA 3: Meithrin gallu

Y camau allweddol o dan y maes hwn oedd darparu mynediad at y pŵer cymhwysedd cyffredinol i gyngorau cymuned cymwys, a gwnaethom hynny o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Daw'r ddarpariaeth hon i rym o fis Mai 2022. Bu ymgysylltu helaeth ar y cynnig i ddarparu mynediad at y pŵer cyffredinol, y bwriad i gynnwys amodau, a beth fyddai'r amodau hynny.

Ers dechrau 2020, rydym wedi darparu cyllid ar gyfer tua 70 o leoedd wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer y Dystysgrif mewn Gweinyddu Cyngorau Lleol (CiLCA) i gefnogi cyflwyno'r pŵer cyffredinol.

Atodiad A – Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru Meysydd Gweithredu Llywodraeth Cymru - Diweddariad Hydref 2021

Rydym wedi sicrhau bod cyllid ar gael yn gyson i gyngorau cymuned a thref ddatblygu trefniadau cyflawni ar y cyd drwy grant i annog trefniadau o'r fath. Fodd bynnag, nid oedd yr awydd gan y sector yn cyfateb i'r hyn yr oeddem efallai wedi'i ragweld, ac ar gyfer 2020-21 ymlaen cafodd yr adnoddau ar gyfer cydweithio eu hailgyfeirio i gefnogi mwy o bwyslais ar reoli ariannol a hyfforddiant llywodraethu.

THEMA 4: Meithrin gallu

Rydym yn gweithio gyda'r chyrff y sector, Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cyngorau Lleol (SLCC) - drwy'r Grŵp Cyngori Hyfforddiant Cenedlaethol (NTAG) - i nodi anghenion hyfforddi craidd ar gyfer clercod a chynghorwyr.

Er nad oes awydd am hyfforddiant craidd gorfodol gan y sector, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu bwrsariaethau i annog cynghorwyr a chlercod i fanteisio ar hyfforddiant mewn meysydd penodol, yn enwedig o ran rheolaeth ariannol a llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys y fwrsariaeth CiLCA uchod ar gyfer clercod cyngorau cymuned a thref.

Er mwyn cefnogi gwelliant parhaus yn y sector, rydym yn archwilio sut y gallwn wneud mwy i gefnogi'r sector i werthuso'u hun a gwella'i hun. Mae gwaith ar y gweill ar offeryn hunanasesu sydd i'w dreialu yr hydref hwn. Bwriad yr offeryn hunanasesu, a gydgyhyrchwyd gydag Un Llais Cymru a SLCC gyda chynghor gan Archwilio Cymru, yw helpu cynghorau i ddeall eu rhwymedigaethau archwilio, a'u cynorthwyo i wella eu trefniadau llywodraethu.

THEMA 5: Gwella'r berthynas

Aeth Un Llais Cymru a CLILC ati i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried sut y gellid cryfhau'r berthynas allweddol rhwng cyngorau cymuned a thref a phrif gyngorau – gan gynnwys a ddylid gwneud strwythurau penodol yn orfodol. Bu oedi yn ystod y pandemig, ond disgwylir y bydd y gwaith hwn yn ailgychwyn.

Rydym yn dal i bryderu am achosion lle mae'r berthynas waith yn chwalu mewn cyngorau cymuned a thref. Mae Llywodraeth Cymru wedi hwyluso ymgysylltu rhwng swyddfa'r Ombwdsmon a chyrff cynrychioliadol y sector ac maent gyda'i gilydd yn datblygu canllaw i gyngorau cymuned a thref mewn perthynas â chwynion swyddogion am fwlio ac aflonyddu gan gyngorwyr unigol. Disgwylir i hwn gael ei gyhoeddi gan Un Llais Cymru a SLCC yn ystod y misoedd nesaf.

Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig yn ddiweddar ar yr [Adolygiad o Fframwaith Safonau Moesegol Cymru](#), a argymhellodd rai newidiadau i'r Cod Ymddygiad craidd. Mae'r pecyn cymorth hunanasesu ar gyfer cyngorau cymuned a thref yn cynnwys eitem restr wirio i sicrhau bod pob cyngorydd wedi darllen a chytuno â'r Cod Ymddygiad.

**Atodiad A – Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru
Meysydd Gweithredu Llywodraeth Cymru - Diweddariad
Hydref 2021**

THEMA: Gwella Atebolrwydd

Gwnaed darpariaeth yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref adrodd yn flynyddol i'w cymunedau. Bydd y canllawiau ar gyfer adroddiadau blynyddol yn helpu cynghorau i fod yn dryloyw i'w cymunedau ar weithgareddau diweddar a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Bydd y canllawiau hefyd yn annog cynghorau i weithio ar sail cylch o ymgysylltu, cynllunio, cynnal ac adrodd. Bydd y dull hwn yn cael ei atgyfnerthu o fewn y pecyn cymorth hunanasesu ar gyfer cynghorau cymuned a thref. Mae Canllaw'r Cynghorydd Da, sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir a'r hyn a olygir wrth 'arfer da', wrthi'n cael ei ddiweddarau cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai.

Bydd hefyd yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref baratoi a chyhoeddi cynllun hyfforddi ar gyfer cynghorwyr a chlercod. Mae'n bwysig i gynghorau fod yn dryloyw ynglŷn â'u hanghenion a'u blaenoriaethau hyfforddi er mwyn rhoi hyder bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt i gefnogi eu cymunedau.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG43570

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad ar reoliadau cymwysterau clercod
cynghorau cymuned

Rhagfyr 2021

Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar reoliadau drafft a oedd yn pennu'r cymwysterau y mae'n rhaid i glerc cyngor cymuned feddu arnynt er mwyn i gyngor cymuned fodloni'r ail amod o blith tri i fod yn gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd.

Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Is-adran Perfformiad a Phartneriaethau Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: LGPartnerships@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori eu cyhoeddi, a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: <https://llyw.cymru/rheoliadau-cymwysterau-clercod-cynghorau-cymuned>

Cynnwys

Cynnwys.....	3
Cyflwyniad – Cefndir yr ymgynghoriad	4
Y broses ymgynghori.....	4
Crynodeb o'r ymatebion	5
Cwestiwn 1.....	6
Cwestiwn 2	8
Cwestiwn 3.....	9
Cwestiwn 4.....	11
Cwestiwn 5.....	12
Cwestiwn 6.....	13
Ystyriaethau	16
Y camau nesaf	18
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad	20

Cyflwyniad – Cefndir yr ymgynghoriad

Mae adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021') yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol (y 'pŵer cyffredinol') i awdurdodau lleol cymwys. Mae'r pŵer cyffredinol yn rhoi'r pŵer i'r awdurdodau hyn wneud unrhyw beth y gall unigolyn ei wneud, cyhyd â'u bod yn gweithredu'n rhesymegol ac yn unol â'r gyfraith. Pennir awdurdodau lleol cymwys yn Neddf 2021 fel prif gynghorau a 'chynghorau cymuned cymwys'.

Mae'r amodau y mae'n rhaid i gyngor cymuned eu bodloni er mwyn pasio penderfyniad ei fod yn 'gyngor cymuned cymwys' fel a ganlyn:

- datganwyd bod o leiaf ddau draean o gyfanswm aelodau'r cyngor wedi'u hethol, boed mewn etholiad cyffredin neu mewn is-etholiad;
- mae clerc y cyngor yn dal unrhyw gymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster o fath a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau;
- mae'r cyngor wedi cael barn archwilio ddiamod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, am ddwy flwyddyn ariannol yn olynol. Mae'n rhaid i'r farn archwilio ddiamod ddiweddaraf fod wedi'i chael yn ystod y 12 mis cyn y diwrnod y cafodd penderfyniad y cyngor ei basio.

Y broses ymgynghori

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ffurfiol ar reoliadau drafft a oedd yn pennu'r cymwysterau y mae'n rhaid i glerc cyngor cymuned feddu arnynt er mwyn i'r cyngor cymuned fodloni'r ail amod o blith tri i fod yn gymwys i ddod yn gyngor cymuned cymwys. Roedd yr ymgynghoriad ar agor i ymatebion rhwng 28 Mehefin 2021 a 24 Medi 2021.

Darparwyd fersiynau ar-lein o'r ddogfen ymgynghori ffurfiol a'r rheoliadau drafft yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru. E-bostiwyd dolen i'r ymgynghoriad i bob cyngor cymuned a thref, yn ogystal ag amrywiaeth o randdeiliaid eraill.

Yr ymatebion a gafwyd

Cafwyd cyfanswm o 117 o ymatebion erbyn y dyddiad cau. Ni chafwyd unrhyw ymatebion eraill ar ôl y dyddiad cau.

Roedd yr ymatebion a gafwyd fel a ganlyn:

- 87 o ymatebion gan y sector cynghorau cymuned a thref
- 1 ymateb gan gyngor sirol neu gyngor bwrdeistref sirol
- 4 ymateb gan gyrff archwilio/arolygu/rheoleiddio/comisiynwyr
- 3 ymateb gan gyrff cynrychioliadol, cyrff proffesiynol neu gymdeithasau
- 12 o ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd
- 10 ymateb dienw

Crynodeb o'r ymatebion

Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio cyfleu pob pwynt a wnaed gan ymatebwyr yn fanwl.

Gofynnwyd chwe chwestiwn yn y ddogfen ymgynghori a chrynhair yr ymatebion i bob un isod.

Nid atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn, a rhoddodd rai ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol. Os felly, rydym wedi cynnwys eu hymateb o dan y cwestiwn mwyaf priodol neu yn y crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn chwech.

Cwestiwn 1: A yw'r math o gymwysterau a bennir yn rhoi hyder ichi fod y clerc yn meddu ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth graidd i helpu cyngor cymuned i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol?

Cafwyd cyfanswm o 102 o ymatebion 'ydy / nac ydy' uniongyrchol i'r cwestiwn hwn. Roedd 70 ohonynt yn cytuno bod y math o gymwysterau a bennir yn rhoi hyder bod y clerc yn meddu ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth graidd i helpu cyngor cymuned i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Dywedodd tri ymatebydd arall na allent roi ateb pendant i'r cwestiwn, gan nodi eu bod yn tybio y byddai'r cymwysterau yn rhoi'r lefel o gymhwysedd sy'n ofynnol. Ychwanegodd ymatebydd arall sylw mewn ymateb i'r cwestiwn ei fod yn credu bod pob clerc yn meddu ar yr wybodaeth graidd sydd ei hangen.

Ychwanegodd rhai ymatebwyr a roddodd ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn ragor o sylwadau, gan gynnwys:

- Dylai Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cyngorau Lleol (CiLCA) fod yn ofyniad sylfaenol a dylai cymwysterau eraill ddibynnu ar faint y cyngor.
- Mae cymhwyster CiLCA yn ddigon ar gyfer cyngorau cymuned bach a chanolig.
- Mae'r cymwysterau y cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad yn rhai addas sy'n benodol i'r sector ac maent yn gyson â'r ffordd yr ymdrinnir â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn Lloegr.
- Rhaid i'r cymhwyster gael ei gydnabod fel gofyniad sylfaenol pan benodir clercod newydd, a dylai gael ei nodi yn yr hysbyseb.
- Mae'n hollbwysig bod clercod yn sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau yn gyfredol, ac ystyriwyd y byddai angen datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol ar ôl cyfnod penodol wedi ennill cymhwyster CiLCA.
- Rhaid neilltuo amser i'r clercod presennol ennill y cymhwyster os bydd yn hanfodol.
- Mae angen hefyd i glercod gael hyfforddiant sylfaenol o fewn tri mis i'w penodiad.

Dywedodd nifer bach o'r rhai a oedd yn cytuno bod y cymwysterau a bennwyd yn rhoi hyder bod y clerc yn meddu ar yr wybodaeth graidd y dylid hefyd gydnabod y rhai sydd wedi gweithio yn y rôl am nifer o flynyddoedd.

O blith y 32 o ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n benodol y byddai'r cymwysterau a bennwyd yn rhoi hyder bod y clerc yn meddu ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth graidd i helpu cyngor cymuned i arfer y pŵer cyffredinol newydd, codwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Nid yw'r rhestr arfaethedig o gymwysterau yn cydnabod yr amrywiaeth o gymwysterau y mae uwch-swyddogion llywodraeth leol yn meddu arnynt.
- Dim ond rhan o'r broses o asesu a all rhywun berfformio'n effeithiol yw cymhwyster. Mae pethau eraill fel cymwyseddau, profiad a gwybodaeth leol yn bwysig hefyd.
- Dylid ystyried cymwysterau eraill (gan gynnwys cymwysterau cyllid a galwedigaethol) a phrofiad.

- Efallai fod y cymwysterau yn addas ar gyfer y cyngorau mwy o faint, ond ni fyddai eu hangen ar gyfer cyngor cymuned bach.
- Dylid hefyd gydnabod hyd gwasanaeth, er enghraifft pedair blynedd neu fwy yn y swydd.
- Ni ddylid disgwyl i glercod profiadol ennill cymhwyster ychwanegol.
- Dylai fod ystod o hyfforddiant craidd i glercod, ac ni ddylai fod yn hanfodol iddynt feddu ar y cymhwyster cyn dechrau yn y rôl, gan y byddai hyn yn gwaethgu'r problemau o ran recriwtio.
- Mae angen rhagor o fanylion am y cymwysterau er mwyn gwneud sylwadau ynghylch a fyddent yn rhoi hyder.

Awgrymodd rhai ymatebwyr fod cymwysterau eraill a fyddai'n cynnig yr un lefel o hyder, gan gynnwys:

- Cymhwyster mewn cydraddoldeb, tegwch ac amrywiaeth a rhagfarn ddiarwybod.
- Cymhwyster hyd at lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol
- Cymwysterau eraill megis Gradd Feistr mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghyd â dwy flynedd o brofiad fel clercc neu bum mlynedd fel dirprwy glerc neu gynghorydd.

Cododd rhai ymatebwyr heriau ymarferol:

- Bydd yn rhaid i gostau'r cwrs gael eu talu gan y cyngor, yn ychwanegol at gyflog y clercc, ac ni fydd gan gynghorau bach ddigon o gyllid i alluogi eu clercc i gwblhau'r hyfforddiant.
- Bydd y gofyniad yn ei gwneud yn fwy anodd recriwtio clerccod.

Ymhlith y pwyntiau eraill a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn roedd y canlynol:

- Dylai clerccod newydd gwblhau hyfforddiant sylfaenol o fewn tri mis i'w penodi.
- Awgrym o gwrs hyfforddiant amlinellol sylfaenol sy'n cynnwys prawf '*fel y gall cyn-weithwyr proffesiynol gael y diweddaraf ar ofynion a dyletswyddau deddfwriaethol*'.
- Mae sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau clerccod yn gyfredol yn bwysig hefyd.
- Dylai hefyd fod yn ofynnol i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol fod wedi ennill FiLCA: Cyflwyniad Ariannol i Weinyddiaeth Cynghorau Lleol.
- Dylai clerccod hefyd allu dangos eu bod yn gallu defnyddio'r pŵer cyffredinol yn ddoeth.
- Goblygiadau o ran bod yn gyngor cymuned cymwys os bydd clercc sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol yn gadael ei swydd.

Cwestiwn 2: A yw disgrifiad pob teitl yn ei gwneud yn glir pa gymwysterau sy'n cael eu pennu?

Cafwyd cyfanswm o 101 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 85 ohonynt yn cytuno bod disgrifiad pob teitl yn ei gwneud yn glir pa gymwysterau sy'n cael eu pennu.

O blith y rhai nad oeddent yn cytuno bod disgrifiadau teitlau yn nodi'n glir pa gymwysterau sy'n cael eu pennu, codwyd y materion canlynol:

- Ni roddwyd digon o wybodaeth am y sgiliau a'r wybodaeth a ddarperir gan bob cymhwyster.
- Nid yw'n glir pa lefel o CiLCA y cyfeirir ati.
- Nid yw'n glir ai CiLCA i Gymru neu i Loegr, neu'r naill neu'r llall, a fyddai'n ofynnol.
- Nid oes dealltwriaeth glir ynglŷn â chymwysterau addysg uwch.
- Dylid pennu CiLCA fel y gofyniad safonol.

Sylwadau eraill

- Dylid adolygu cymhwyster CiLCA a'i ddylunio i ddiwallu anghenion llywodraeth leol yng Nghymru.
- Nid oes angen y cymwysterau hyn ar glercod cynghorau bach.

Cwestiwn 3: A oes unrhyw gymwysterau sectoraidd priodol eraill y dylid ystyried eu cynnwys yn y rheoliadau drafft?

Cyflwynwyd cyfanswm o 74 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O blith y rhai a ymatebodd, dywedodd 26 nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau eraill i'w hawgrymu, neu eu bod yn cytuno mai CiLCA yw'r cymhwyster priodol, neu nad oeddent yn meddu ar ddigon o wybodaeth am gymwysterau sectoraidd, neu na ellid disgwyl iddynt feddu ar wybodaeth o'r fath.

Roedd Un Llais Cymru yn cefnogi CiLCA fel y cymhwyster gofynnol i glercod fel un o'r amodau sy'n galluogi cyngor basio penderfyniad ei fod yn gyngor cymuned at ddibenion y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Ymatebodd Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) drwy nodi nad oes unrhyw gymhwyster sectoraidd priodol arall y dylid ystyried ei gynnwys yn y rheoliadau, gan ychwanegu bod SLCC yn cefnogi'n llawn y gofyniad am glercod cymwysedig fel un o'r amodau i gyngor basio penderfyniad ei fod yn 'gyngor cymuned cymwys'. Mae SLCC yn nodi yn ei hymateb:

'Cymhwyster sy'n benodol i'r sector yw CiLCA (Cymru), sy'n ymgorffori'r holl bynciau hanfodol ac amrywiol y mae angen i glerc fod yn gyfarwydd â nhw er mwyn gweinyddu cyngor lleol yng Nghymru yn llwyddiannus. Mae'n cynnwys pum uned sy'n ymdrin â'r rolau craidd ym maes gweinyddiaeth cynghorau lleol. y gyfraith a gweithdrefnau i gynghorau lleol; cyllid i gynghorau lleol; trefniadau rheoli cynghorau lleol; ac ymgysylltu â'r gymuned... Mae wedi cael ei adnewyddu ar gyfer 2021 er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl gyfredol a pherthnasol, ei fod ar Lefel 3 o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC), a'i fod yn cael ei achredu'n allanol gan Ascentis, sef y corff dyfarnu. Mae'r cymhwyster, er y caiff ei weinyddu a'i reoli gan y Gymdeithas, yn un o gymwysterau'r Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol a gymeradwywyd ac y cytunwyd arnynt gan y rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol yng Nghymru sy'n rhan o'r Grŵp Cyngori Cenedlaethol ar Hyfforddiant.'

Mae ymateb SLCC yn mynd yn ei flaen i nodi nad yw cymwysterau ym maes cyfrifyddiaeth na'r gyfraith yn benodol i'r sector cynghorau lleol nac wedi'u teilwra ar ei gyfer. Yn ei hymateb, roedd SLCC hefyd yn cefnogi'r cymwysterau arfaethedig eraill yn y rheoliadau drafft, gan nodi eu bod yn adeiladu ar gwricwlwm CiLCA.

Gwnaeth nifer o ymatebion i'r cwestiwn hwn awgrymiadau ynglŷn â chymwysterau eraill y dylid eu hystyried:

- Cymhwyster sy'n cyfateb i radd mewn, er enghraifft, astudiaethau busnes, gwleidyddiaeth, y gyfraith a chyfrifyddiaeth.
- ILM/NVQ/City & Guild Lefel 5
- Cymwysterau rheoli ariannol
- CIPFA, ACA, ACCA
- Sefydliad Siartredig yr Ysgrifenyddion

- Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
- Cymwysterau a gydnabyddir gan lywodraeth leol
- TGAU TG
- Gradd Feistr mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Cyfeiriodd chwe ymatebydd at ILCA: Cyflwyniad i Weinyddiaeth Cynghorau Lleol. Nododd dau yn benodol y dylai hyn fod yn gymhwyster gofynnol i glercod cynorthwyol, nododd un y dylai gael ei ennill yn fuan ar ôl penodiad, a nododd un arall ei fod yn gam ar y llwybr tuag at CiLCA.

Awgrymodd un ymatebydd CiLCA ynghyd â dwy flynedd o brofiad o leiaf yn y swydd, ac awgrymodd un arall y Radd Feistr mewn Gweinyddiaeth Leol ynghyd â phrofiad fel clercc, dirprwy glerc neu gynghorydd.

Cyfeiriodd ymatebion eraill at hyfforddiant penodol sydd ei angen ar glercod, er enghraifft nododd un ymatebydd ei bod yn hollbwysig bod clerccod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf, ac awgrymodd un arall hyfforddiant a chymwysterau gorfodol ym maes cydraddoldeb, tegwch ac amrywiaeth. Cyfeiriodd tri ymateb at hyfforddiant yn Gymraeg.

Nodwyd hefyd fod rhai ymddygiadau allweddol yn bwysig i glerccod cynghorau cymuned megis gweithio mewn tîm a chyfathrebu.

Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd nifer bach o'r ymatebwyr y byddai'r cymwysterau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad yn cael effaith ar recriwtio / cadw clerccod, a chyfeiriodd tri at gost yr hyfforddiant o ran amser clerccod a'r hyfforddiant ei hun.

Cyfeiriodd 11 o ymatebion at gydnabod y profiad blaenorol yn rôl y clercc, a soniodd rhai y dylid ystyried cyfnodau penodol o wasanaeth, yn amrywio o bedair i ddeng mlynedd. Cyfeiriodd naw ymateb at gydnabod dysgu neu brofiad blaenorol o sectorau eraill.

Cwestiwn 4: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r rheoliadau drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Ymatebodd cyfanswm o 69 o ymatebwyr yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn.

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion gan y sector cynghorau cymuned at eu lleoliad a defnydd eu cyngor eu hunain o'r Gymraeg.

Nododd 18 o ymatebion na fyddai'r rheoliadau drafft yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Nododd pum ymatebydd nad oeddent yn deall perthnasedd y cwestiwn.

Dywedodd pedwar ymatebydd y byddai goblygiadau i'r Gymraeg gan y byddai llai o ddarpar ymgeiswyr o ganlyniad i'r rheoliadau.

Nododd rhai ymatebwyr y byddai buddiannau pe bai cyfle i gwblhau'r cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg, megis annog siaradwyr Cymraeg i ystyried dilyn y cyrsiau, neu ddefnydd helaethach o derminoleg benodol.

Nododd tri ymatebydd fod pob un o gyrff dyfarnu'r cymwysterau yn y rheoliadau drafft yn Lloegr, ac y dylid annog sefydliadau yng Nghymru i gynnig y cyrsiau. Nododd dau ymatebydd nad yw deunyddiau'r cwrs na'r dysgu ar gael yn Gymraeg fwy na thebyg, a'u bod yn teimlo bod hyn yn gwahaniaethu'n ieithyddol ac nad yw'n trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg.

Nododd ymateb Comisiynydd y Gymraeg y canlynol:

'Eglura'r ddogfen ymgynghori y gall ymgeiswyr ar gyfer y Dystysgrif mewn Gweinyddu'r Cyngor Lleol (CiLCA) gyflwyno eu portffolio yn Gymraeg neu yn Saesneg, a bod aseswr sy'n siarad Cymraeg ar gael i asesu portffolios Cymraeg. Rydym yn cefnogi hyn yn gryf. Mae'n cydnabod statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Trwy hwyluso defnyddio'r Gymraeg, mae hefyd yn cefnogi nod strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.'

Cwestiwn 5: Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r polisi arfaethedig ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafwyd cyfanswm o 40 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nid ymatebodd nifer o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, neu gwnaethant gyfeirio at eu hymateb i'r cwestiwn blaenorol.

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion gan y sector cynghorau cymuned at y defnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol yn hytrach na gwneud sylwadau penodol ynglŷn â sut y gallai'r rheoliadau drafft gael eu llunio i gael mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Ymhlith y pwyntiau a godwyd roedd y canlynol:

- Pe bai'r cwrs yr un fath p'un a yw'n cael ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, ni fyddai unrhyw wahaniaeth i'r gwasanaeth a ddarperir gan y clerc.
- Cyfyd mater ehangach na'r rheoliadau drafft – y dylai adnoddau fod ar gael i helpu'r sector, e.e. i gynnal gwefan ddwyieithog.
- Dylid annog y defnydd o derminoleg gyffredin drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dylid ei gwneud yn orfodol i bob clerc feddu ar sgiliau Cymraeg ysgrifenedig a llafar Lefel 2 o leiaf erbyn 2025-26.
- Gellid rhoi hyfforddiant penodol i glercod ar ddeall Deddf yr Iaith Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- Dylid annog sefydliad yng Nghymru i gynnig y cyrsiau arfaethedig.
- Cyfeiriodd pedwar ymateb at ddarparu cyrsiau dwyieithog.

Croesawodd Comisiynydd y Gymraeg y penderfyniad i gyflwyno modiwl penodol ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol yng Nghymru. Nododd ymateb y Comisiynydd hefyd *'Fe'ch anogwn yn gryf i drafod â'r Gymdeithas sut i wneud y cymhwyster yn fwy perthnasol a mwy gwerthfawr fyth, drwy gynnwys modiwl a fyddai'n sicrhau dealltwriaeth o statws a sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru'*.

Cwestiwn 6: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Rhoddodd cwestiwn 6 gyfle i godi unrhyw faterion cysylltiedig nad oedd y cwestiynau eraill wedi ymdrin â nhw'n benodol. Cafwyd 68 o ymatebion i'r cwestiwn hwn (gan gynnwys rhai o'r llythyrau eglurhaol) a oedd yn cwmpasu amrywiaeth o faterion yr oedd ymatebwyr am eu codi neu ailadrodd eu safbwynt yn eu cylch.

Roedd rhai sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r cymwysterau a gynigiwyd yn y rheoliadau drafft:

- Creffir ar waith clercod bob blwyddyn drwy archwilio cyfrifon.
- Dim ond i gynghorau tref mwy o faint y dylai'r gofynion o ran cymwysterau fod yn gymwys.
- Nid yw gwneud cymwysterau penodol yn ofynnol o reidrwydd yn helpu cynghorau i recriwtio na chadw staff priodol, a dylid asesu gwybodaeth ac arbenigedd yn fwy hyblyg.
- Mae clercod cymwysedig yn gaffaeliad i'r cyngor, gyda'r pŵer cymhwysedd cyffredinol neu hebddo.
- Mae gofynion o ran cymwysterau i glercod yn helpu i wella effeithiolrwydd.
- Awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol pe bai niferoedd digonol o bobl sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol ar gael i'w recriwtio neu i'w hyfforddi o fewn cyfnod rhesymol.
- Holwyd a ddylai fod gofyniad hefyd i feddu ar wybodaeth ymarferol ym maes TG.
- Ystyrir bod cynllunio olyniaeth yn bwysig, a holwyd ynghylch beth sy'n digwydd os bydd y clerc cymwysedig yn gadael cyngor sydd wedi pasio penderfyniad ei fod yn gymwys.
- Ni ddylai fod yn ofynnol i glerc sydd eisoes yn ei swydd astudio ar gyfer y cymhwyster.
- Mae ei gwneud yn ofynnol i'r clerc ennill y cymhwyster yn arwain at oblygiadau o ran cost ac amser, yn enwedig i gynghorau bach.
- Dylid ystyried hyd gwasanaeth, nid dim ond cymwysterau.
- Gallai SLCC lunio prawf ysgrifenedig i glercod sydd wedi bod yn eu swydd am gyfnod hir, a threfnu sesiynau hyfforddiant i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn eu dealltwriaeth.
- Dylid cyflwyno prawf blynyddol ar ddeddfwriaeth ddiweddar er mwyn sicrhau bod clercod yn ymwybodol o'r newidiadau deddfwriaethol diweddaraf.
- Nid oedd yr ymgynghoriad yn ystyried amrywiaeth cynghorau cymuned.
- Awgrymwyd y gallai'r cymwysterau gael eu hystyried yn 'ddymunol' neu y gallai cynghorau ofyn i glercod 'weithio tuag at eu hennill'; awgrymwyd hefyd y dylai'r gofynion fod yn gymwys i ddarpar glercod yn hytrach na chlercod presennol.
- Dylai fod modd dilysu cymwysterau'r clerc.
- Os na chaiff y rhestr arfaethedig o gymwysterau ei hehangu, bydd cynghorau mewn sefyllfa lle na allant basio penderfyniad eu bod yn gymwys.

- Holwyd ynglŷn ag achredu dysgu blaenorol, cyllido'r hyfforddiant a gynigiwyd a chydabyddiaeth i adlewyrchu cymwysterau.
- Dylai fod hyblygrwydd i aelod o'r staff heblaw'r clerc feddu ar y cymwysterau.
- 'Mae CiLCA yn gymhwyster cadarn, cyffredinol'.
- Mae clerc cymwysedig yn gaffaeliad i gyngor, gyda'r pŵer cyffredinol neu hebdo.
- Mynegwyd pryder y gallai rhywun astudio ar gyfer y cymhwyster heb brofiad o'r sector, a bod angen rhai meini prawf i asesu a yw clerc yn gymwys yn ymarferol.
- Awgrymwyd y gellid pennu cymwysterau gwahanol yn ôl maint y cyngor.
- Nodwyd bod profiad a gwybodaeth leol yn bwysicach na chymwysterau, ac na ddylai cynghorau sydd â chlercod profiadol gael eu hatal rhag dod yn gyngor cymuned cymwys at ddibenion y pŵer cyffredinol.
- Holodd un ymatebydd a allai fod hyblygrwydd pe bai aelodau eraill o'r cyngor yn meddu ar un o'r cymwysterau ond nid y clerc.
- Nid yw CiLCA nac ILCA yn adlewyrchu rôl clerc mewn cyngor cymuned bach.
- Dylai fod ffocws ar ymateb pan ystyrir nad yw clerc yn ddigon da, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i bawb feddu ar gymhwyster.

Roedd rhai o'r pwyntiau a godwyd yn ymwneud â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn fwy cyffredinol:

- Nododd un ymatebydd nad yw'r pŵer cyffredinol yn atyniadol i'r cynghorau lleiaf ond efallai y byddant yn teimlo bod angen recriwtio rhywun sy'n meddu ar un o'r cymwysterau er mwyn sicrhau hyblygrwydd yn y dyfodol.
- Codwyd cwestiwn ynghylch a oes pwerau gorfodi mewn perthynas â'r amodau.
- Ni ddylid cynnwys cynghorau llai o faint yn y pŵer cymhwysedd cyffredinol.
- Dylid ystyried gallu ac adnoddau'r staff cyn y gall cyngor ddefnyddio'r pŵer cyffredinol.
- Holwyd ynglŷn â beth sy'n digwydd i gynghorau nad ydynt yn pasio penderfyniad eu bod yn gymwys, a mynegwyd pryder ynglŷn â'r goblygiadau pe bai gofynion yn cael eu 'gorfodi'.

Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, aeth rhai sylwadau y tu hwnt i'r rheoliadau drafft, gan godi materion ehangach yn ymwneud â'r sector cynghorau cymuned:

- Dylai cynghorau cymuned gael eu had-drefnu.
- Mae hyn ond yn ymwneud ag un rhan o wella cynghorau cymuned. Mae profiad a chymwysterau cynghorau cymuned yn bwysig hefyd.
- Mae angen i ffynonellau gwell o gyngor fod ar gael ac yn hygyrch i'r sector.

Yn ei ymateb, mae Cymwysterau Cymru yn nodi bod tri o'r pedwar cymhwyster a gynigiwyd yn rhai sy'n cael eu dilysu neu eu dyfarnu gan Sefydliadau Addysg Uwch a'u bod o fewn cylch gwaith CCAUC a QAA, ond bod cymhwyster CiLCA yn cael ei gynnig gan Ascentis, sy'n cael ei gydnabod a'i reoleiddio gan Cymwysterau Cymru. Mae'r ymateb yn ychwanegu bod Ascentis wedi eithrio CiLCA o gwmpas ei gymwysterau a gydnabyddir ac nad yw'r cymhwyster yn cael ei reoleiddio na'i fonitro gan Cymwysterau Cymru. Fodd bynnag, mae Cymwysterau Cymru yn nodi bod

rhaglen hyfforddiant CiLCA wedi ei hen sefydlu. Mae'r ymateb hefyd yn cynnwys y sylw y 'gall enwi cymwysterau penodol mewn Rheoliadau fod yn broblematic, gan ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau newydd gael eu drafftio os bydd unrhyw newidiadau i deitlau'r cymwysterau, y darparwyr, neu os bydd y cymwysterau'n dod i ben / yn cael eu tynnu'n ôl. Ar hyn o bryd un darparwr hyfforddiant sy'n darparu'r rhaglen CiLCA ac felly mae risg hefyd pe na bai'r darparwr yn gallu gweithredu am unrhyw reswm'

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, nododd Archwilio Cymru: 'Er mwyn sicrhau bod y cymwysterau a restrir yn y rheoliadau yn ddigonol, ac yn parhau i fod yn ddigonol, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru adolygu, a chael cyngor arbenigol parhaus a manwl ar berthnasedd ac effeithiolrwydd y cymwysterau.'

Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi bod y cymwysterau a gynigiwyd yn ymddangos yn briodol ac yn berthnasol i rôl clercod. Mae ymateb yr Ombwdsmon yn ychwanegu, oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r cymwysterau, a'r argymhelliad gan SLCC y dylai clerc fod yn ei swydd am 12 mis o leiaf cyn gwneud cais am CiLCA, y gallai fod oedi cyn y bydd cynghorau sydd â chlercod newydd eu penodi nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau arfaethedig yn gallu pasio penderfyniad eu bod yn gyngor cymuned cymwys. Gofynnodd yr Ombwdsmon i Lywodraeth Cymru ystyried derbyn cymwysterau tebyg amgen a phrofiad perthnasol. Nododd yr Ombwdsmon hefyd y bwrsariau sydd ar gael ar hyn o bryd tuag at gost hyfforddiant, a gofynnodd am i gyllid yn yr hirdymor gael ei ystyried.

Ystyriaethau

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Er na fydd yr adroddiad hwn yn ymateb i bob un o'r materion a godwyd, mae'r ymatebion wedi cael eu hystyried yn ofalus wrth lunio'r rheoliadau drafft terfynol.

Nodir bod y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cytuno bod y cymwysterau a bennwyd yn y rheoliadau drafft yn rhoi hyder bod y clerc yn meddu ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth graidd i helpu cyngor cymuned i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno bod disgrifiadau teitlau yn glir ynglŷn â'r cymwysterau a bennwyd.

Cynigiodd rhai ymatebwyr gymwysterau amgen i'w hystyried ar gyfer y rheoliadau drafft. Nid oedd unrhyw gonsensws ynglŷn â chymwysterau addas eraill sy'n benodol i'r sector. Er y caiff y cymwysterau a gynigiwyd eu cydnabod o ran lefel y cyrhaeddiad, nid ystyrir eu bod yn benodol i'r sector cynghorau cymuned a thref. Byddai'r graddau y byddai cynnwys y cymwysterau hyn yn gymwys i'r sector yn amrywio.

Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y dylid ystyried profiad mewn rôl clerc, ac awgrymwyd cyfnodau yn amrywio o bedair i ddeng mlynedd. Er y cydnabyddir profiad, nid oes modd ei fesur mewn ffordd wrthrychol er mwyn sicrhau bod clerc yn addas i helpu cyngor i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol newydd. Adlewyrchir goddrychaeth o'r fath yn yr awgrymiadau gwahanol o ran nifer y blynyddoedd a ystyrir yn brofiad digonol.

Ymddangosai fod rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cymwysterau yn ofynnol i glerc pob cyngor, gyda rhai'n nodi'n benodol y dylent fod yn berthnasol i gynghorau mawr ond na fyddai eu hangen ar gynghorau llai o faint, a chododd eraill bryderon y byddent yn arwain at sefyllfa lle byddai clercod yn gadael y sector.

Mae'n bwysig pwysleisio **nad** oes rhaid i gyngor cymuned geisio bodloni'r amodau ar gyfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol oni bai ei fod yn dymuno gwneud hynny. Dim ond i'r cynghorau hynny, ni waeth beth fo'u maint, sy'n dymuno pasio penderfyniad eu bod yn gyngor cymuned cymwys at ddibenion arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol y mae'r gofyniad ynglŷn â chymwysterau yn y rheoliadau drafft fel yr ymgynghorwyd arnynt yn gymwys. **Ni** fydd yn ofynnol i gynghorau nad ydynt yn dymuno arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol benodi clerc sy'n meddu ar y cymwysterau a bennir yn y rheoliadau. Mae'r pŵer cyffredinol o dan Adran 137(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wedi cael ei gadw ar gyfer cynghorau cymuned nad ydynt yn dymuno pasio penderfyniad eu bod yn gynghorau cymuned cymwys, neu na allant fodloni'r amodau cymhwystra eto. Byddai cyngor nad yw'n dymuno defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol newydd yn parhau i ddiwynnu ar Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyda'r terfynau ariannol sy'n gymwys.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at gost hyfforddiant, o ran cyllido'r cymwysterau eu hunain a'r amser y byddai'r clerc yn ei gymryd i astudio ar eu cyfer. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu [cyllid bwrsariau](#) i'w gwneud yn bosibl i glercod astudio ar gyfer y dystysgrif CiLCA lawn, a byddai'n annog cynghorau a chlercod i

fanteisio ar y cyfle hwn. Caiff y cyllid bwrsariau hwn ar gyfer CiLCA ei adolygu bob blwyddyn.

Cyfeiriodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd at ba mor bwysig ydoedd i glercod ddiweddarau eu sgiliau. Byddem yn annog clercod i ystyried yr holl gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus sydd ar gael. Er mwyn cydnabod hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu bwrsari i glercod sy'n talu am 50% o gost ILCA, cyrsiau hyfforddiant SLCC, cynadleddau SLCC neu ddigwyddiadau DPP SLCC hyd at uchafswm taliad bwrsari o £100. Mae hwn ar gael yn y flwyddyn ariannol 2021-22.

Nid oedd un ymatebydd yn glir pa un o raglenni CiLCA oedd dan sylw. Dim ond un Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA) sydd. Mae un o fodiwlau CiLCA yn ymwneud â deddfwriaeth ac mae ei chynnwys yn wahanol yn dibynnu a ofynnir am fersiwn Cymraeg neu Saesneg y cwrs. Mae'r dystysgrif ddilynol yr un fath yn y naill achos neu'r llall

Roedd un ymatebydd wedi gofyn a oedd y gofyniad ar gyfer cymhwyster CiLCA yn benodol i Gymru, ac awgrymodd un arall y dylai'r cymhwyster gael ei adolygu a'i ddylunio ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Dim ond un cymhwyster CiLCA sydd, ond bydd clercod sy'n cael yr hyfforddiant yng Nghymru yn cael cynnwys a deddfwriaeth sydd wedi'u teilwra i gyd-destun Cymru. Mae SLCC wrthi'n diweddarau'r cymhwyster CiLCA i Gymru er mwyn cynnwys modiwl yn ymwneud â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yng Nghymru. Bydd y modiwl hefyd ar gael fel modiwl ar ei ben ei hun i'r rhai sydd eisoes wedi ennill CiLCA.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ynglŷn ag ymarferoldeb arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Byddwn yn rhoi canllawiau statudol i gynghorau cymuned a thref ar eu pwerau a'u dyletswyddau newydd a bennir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd hyn yn cynnwys adran ar arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol a chaiff y cwestiynau a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn eu hadlewyrchu yn y canllawiau. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar y canllawiau yn ddiweddarach eleni, ac mae'n ymrwymedig i weithio'n agos gyda phartneriaid yn y sector i sicrhau bod y canllawiau'n diwallu anghenion cynghorau cymuned a thref yng Nghymru.

Cododd rhai ymatebwyr bryderon bod cyrff dyfarnu'r cymwysterau yn y rheoliadau drafft i gyd yn Lloegr. Yn ystod yr ymgynghoriad, ni nodwyd dewis amgen addas gan gorff yng Nghymru.

Yn ystod yr ymgynghoriad, daethom yn ymwybodol o fater ynghylch y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer CiLCA. Roeddem wedi deall bod cefnogaeth ddwyieithog lawn ar gyfer hyfforddi a chwblhau'r cwrs yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir am bob agwedd ar y cwrs CiLCA. Fel rhan o'r ymrwymiad i gefnogi Cymraeg 2050, byddwn yn gweithio gyda SLCC a'n partneriaid i sicrhau bod clercod sy'n astudio ar gyfer CiLCA yn cael yr un profiad, p'un a ydynt yn dilyn y cwrs yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Nododd Cymwysterau Cymru fod CiLCA yn gymhwyster nad yw'n cael ei reoleiddio. Fodd bynnag, hon yw'r brif dystysgrif hyfforddiant sy'n benodol i'r sector ar gyfer clercod cynghorau cymuned, a gymeradwywyd gan SLCC. Bydd unigolyn sy'n cwblhau CiLCA yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel un sydd wedi cael yr

hyfforddiant angenrheidiol i ymgymryd â rhannau allweddol o'i rôl. Byddwn yn nodi'n glir yn y deunyddiau sy'n ategu'r rheoliadau hyn mai felly y mae.

Mae Cymwysterau Cymru yn nodi'r risg sy'n gysylltiedig ag enwi'r cymhwyster perthnasol mewn rheoliadau a dibynnu ar un darparwr mewn perthynas â CiLCA. Nododd Archwilio Cymru y dylai Llywodraeth Cymru '*...adolygu, a chael cyngor arbenigol parhaus a manwl ar berthnasedd ac effeithiolrwydd y cymwysterau.*' Ein barn ni, yn yr achos hwn, yw ein bod am enwi cymwysterau penodol am fod y cymwysterau sy'n ofynnol yn benodol i'r sector. Mae trosiant araf ymhlith cymwysterau priodol, sy'n lleihau'r risg y bydd angen diwygio rheoliadau yn rheolaidd. Rydym yn cytuno ag Archwilio Cymru y dylai Llywodraeth Cymru, o bryd i'w gilydd, adolygu'r opsiynau ar gyfer cymwysterau priodol i helpu cyngorau cymuned a thref i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr angen i sicrhau bod pob clerwr yn diweddarau ei sgiliau. Rydym yn cytuno bod sicrhau bod staff ac aelodau cyngorau cymuned wedi cael hyfforddiant addas i gyflawni eu rolau yn allweddol i feithrin gallu yn y sector. Mae Adran 67 o Ddeddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned baratoi a chyhoeddi cynllun ynglŷn â'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer eu haelodau a'u staff. Rhaid i'r cynlluniau hyfforddiant cyntaf gael eu cyhoeddi erbyn 5 Tachwedd 2022, a bydd y canllawiau statudol y cyfeirir atynt uchod yn ceisio helpu cyngorau i ddatblygu'r cynlluniau hyn.

Y camau nesaf

Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau i'r rheoliadau drafft yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae hyder amlwg bod CiLCA yn darparu'r hyfforddiant priodol sy'n benodol i'r sector i glercod er mwyn iddynt gefnogi eu cyngor, yn enwedig gan brif gyrff cynrychioliadol y sector. Mae'r cymwysterau eraill a enwyd hefyd yn bodloni'r gofyniad hwnnw. Nid yw cymwysterau eraill a nodwyd mewn ymatebion yn ddigon penodol i roi arwydd gwrthrychol bod y clerwr wedi cael hyfforddiant ar sut i helpu'r cyngor i ddefnyddio'r pŵer cyffredinol. Mae cyfnod yn y swydd hefyd yn fesur rhy oddrychol. Byddem yn annog clercod sefydledig, mewn cyngorau sy'n dymuno defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, i ddefnyddio'r cynllun bwrsariâu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda SLCC, y darparwr hyfforddiant, ac Ascentis, y corff dyfarnu, i fynd i'r afael â mater y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. O 5 Mai 2022 fan hwyr, bydd profiad y defnyddiwr wrth wneud y CiLCA yr un fath, boed drwy gyfrwng y Saesneg neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn ddiolchgar i SLCC ac Ascentis am eu cefnogaeth i ddatrys hyn.

Gellir mynd i'r afael â materion eraill a godwyd yn y canllawiau statudol i helpu cyngorau cymuned a thref i weithredu'r amryw ddarpariaethau yn Neddf 2021 sy'n gymwys iddynt. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau drafft ar gyfer ymgynghoriad yn ddiweddarach y flwyddyn galendr hon, a fydd yn rhoi cyngor ar baratoi cyngor i arfer y pŵer cyffredinol.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn Un Llais Cymru a SLCC i helpu'r sector i roi'r newidiadau a fydd yn deillio o Ddeddf 2021 ar waith, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd addas. Rydym yn bwriadu gwneud y rheoliadau yn ddiweddarach yn 2021, gyda dyddiad dod i rym o 5 Mai 2022, i gyd-daro â chyflwyno'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i gynghorau cymuned a thref.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Y sector cynghorau cymuned a thref

Cyflwynwyd 87 o ymatebion*

* Mae hyn yn adlewyrchu nifer yr ymatebion a gyflwynwyd gan y sector cynghorau cymuned. Nid oedd yn amlwg mewn llawer o'r ymatebion ai ymateb unigolyn, ymateb personol gan glerc neu gynghorydd, neu ymateb ffurfiol ar ran cyngor oedd yr ymateb dan sylw. Hefyd, cafwyd mwy nag un ymateb gan rai cynghorau, naill ai gan ddau gynghorydd neu'r cyngor ac ymateb ar wahân gan y clerc.

Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyrff archwilio/arolygu/rheoleiddio/comisiynwyr

Archwilio Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Cymwysterau Cymru
Comisiynydd y Gymraeg

Cyrff cynrychioliadol, cyrff proffesiynol neu gymdeithasau

Un Llais Cymru
Cymdeithas y Clercod Cynghorau Lleol
Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru

Aelodau o'r cyhoedd

12 o ymatebion

Dienw

10 o ymatebion

Eitem 6


Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rhagfyr 2021



Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer comisiynu lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn yn datrys rhai materion hirsefydlog; mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei hun bod diwygiadau polisiau arfaethedig yn mynd yn ddigon pell	4
Am yr adroddiad hwn	4
Ledled Cymru, mae costau comisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn yn rhedeg i gannoedd o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn ac effeithir ar filoedd lawer o bobl	5
Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithredu'n effeithiol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau comisiynu cartrefi gofal	7
Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi codi pryderon â Llywodraeth Cymru o'r blaen ynghylch a yw cronfeydd cyfun rhanbarthol, mewn cysylltiad â chartrefi gofal i bobl hŷn, yn rhoi gwerth am arian	9
Nododd ein gwaith ar gomisiynu lleoliadau cartrefi gofal i bobl hŷn ar draws y gogledd rai materion sylfaenol sy'n debygol o gael eu hadlewyrchu ledled Cymru i ryw raddau	11
Mae cyfle amserol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith diwygio cynlluniedig yn datrys rhai o'r materion hirsefydlog a heriol sy'n ymwneud â chomisiynu cartrefi gofal a gofal integredig	14
Argymhellion	15
Atodiadau	16
1 Gwariant ar leoliadau cartrefi gofal a gomisiynwyd ledled Cymru	17



Adroddiad cryno

Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer comisiynu lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn yn datrys rhai materion hirsefydlog; mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei hun bod diwygiadau polisiau arfaethedig yn mynd yn ddigon pell

Am yr adroddiad hwn

- 1 Rydym wedi cwblhau adolygiad ynghylch comisiynu lleoliadau cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn y gogledd yn ddiweddar. Roedd ein gwaith yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid comisiynu ond yn canolbwyntio'n bennaf ar y chwe awdurdod lleol¹ a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Rydym wedi paratoi adroddiad manwl ar gyfer y sefydliadau hyn i helpu i sbarduno gwelliant, yn y gogledd yn benodol: [Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – Cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr](#). Galluogodd ein hadolygiad i ni ystyried yn fanylach, ar draws y rhanbarth, faterion a godwyd mewn gwaith archwilio blaenrol ar bwysau cyllidebol gwasanaethau cymdeithasol mewn dau o'r awdurdodau lleol².
- 2 Rydym wedi paratoi'r adroddiad byr hwn i dynnu allan o'n gwaith yn y gogledd rai materion o arwyddocâd cenedlaethol ehangach ac i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Ein nod yw tynnu sylw at heriau y dylid eu hystyried yn rhan o ddiwygio polisiau arfaethedig a sicrhau newid ystyrllon a gwell canlyniadau i bobl ledled Cymru. Mae'r adroddiad wedi ei wreiddio mewn tystiolaeth o'n gwaith yn y gogledd, ond rydym hefyd wedi defnyddio ein gwybodaeth archwilio ehangach megis o'n hadolygiad Cymru gyfan o'r [Gronfa Gofal Integredig](#) ym mis Gorffennaf 2019 a data sydd ar gael i'r cyhoedd ar wariant a gweithgarwch.

1 Y cynghorau dan sylw yw Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

2 Yn 2020, gwnaethom adrodd ar bwysau cyllidebol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych.

Ledled Cymru, mae costau comisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn yn rhedeg i gannoedd o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn ac effeithir ar filoedd lawer o bobl

- 3 Mae comisiynu cartrefi gofal yn ganlyniad i asesu anghenion y boblogaeth, cynllunio, llywio, caffael, a darparu gwasanaethau cartref gofal weithiau. Mae'n cynnwys monitro a rheoli ansawdd gwasanaethau. Dylid ei wneud gyda'r nod o ddarparu capasiti digonol o gartrefi gofal o ansawdd da i ddiwallu'r angen cyfredol a'r angen disgwylidig yn y dyfodol. Dylai ganolbwyntio ar werth i'r trethdalwr a chanlyniadau i'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n llawer mwy na phrynu lleoliadau cartref gofal yn y fan a'r lle.
- 4 Mae'r arian cyhoeddus sy'n gysylltiedig â chomisiynu cartrefi gofal yn deillio o gyllidebau awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae comisiynu cartrefi gofal hefyd yn defnyddio rhannau helaeth o gynilion bywyd unigolion. Ar lefel uchel, mae'r cyfrifoldeb am ffioedd cartrefi gofal yn syml:
- gall person ddewis symud i gartref gofal ar ei draul ei hun;
 - os oes gan berson anghenion gofal iechyd parhaus, yna'r bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am dalu'r costau llawn;
 - os mai anghenion gofal cymdeithasol yn unig sydd gan rywun, mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am dalu'r costau hyn, ond caiff y defnyddiwr gwasanaeth ei asesu i benderfynu faint y dylai ei dalu tuag at ei ofal; ac
 - os oes gan rywun gyfuniad o anghenion iechyd a gofal, yna bydd y cyngor a'r bwrdd iechyd yn rhannu'r costau.

Gall cymhlethdod godi pan fo angen i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol gytuno ar gymhwysedd i gael cyllid.

- 5 Mae **Arddangosyn 1** yn darparu rhai ffeithiau a ffigurau allweddol sy'n berthnasol i gomisiynu cartrefi gofal ledled Cymru. Mae'r ffigurau ar gyfer gwahanol flynyddoedd yn dibynnu ar y data cyhoeddedig diweddaraf sydd ar gael, ar ddiwedd mis Mehefin 2021. Rydym wedi adrodd am gostau byrddau iechyd yn 2019-20 er mwyn eu cymharu ag awdurdodau lleol. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys dadansoddiad ychwanegol o gostau penodol ar gyfer awdurdodau lleol unigol a byrddau iechyd o'u cymharu â'u poblogaethau. Y data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael cyn y pandemig; ni fyddai defnyddio data mwy diweddar yn adlewyrchu lefelau gweithgarwch arferol.

Arddangosyn 1: rhai ffeithiau allweddol sy'n berthnasol i gomisiynu cartrefi gofal

6.24 miliwn o ddiwrnodau

Cyfanswm y diwrnodau y cafodd oedolion 65 oed a hŷn eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl yn 2018-19 (StatsCymru)



£297 miliwn

O wariant gan awdurdodau lleol ar leoliadau nyrsio a phreswyl ar gyfer pobl 65 oed a hŷn yng Nghymru yn 2019-20 (StatsCymru)

16,144

o bobl 65 oed a hŷn sy'n derbyn gwasanaethau gofal i oedolion gan awdurdodau lleol yn 2018-19.

O'r rhain, mae **5,534** yn derbyn gwasanaethau nyrsio hefyd.



Mae'r data diweddaraf yn dangos:

677 o gartrefi gofal yng Nghymru bod **263** o'r rhain yn darparu gofal nyrsio

96 o gartrefi gofal a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru

22,706 o welyau cartrefi gofal yng Nghymru (CMA 2017)

25,500 o staff gofal preswyl

£415 miliwn

Ar ofal iechyd parhaus y Bwrdd Iechyd a chostau gofal nyrsio a ariannwyd yn 2019-20 (Cyfrifon Blynyddol)



833 diwrnod

Y cyfnod cyfartalog y cefnogwyd oedolion dros 65 oed mewn cartrefi gofal preswyl fel y'u cofnodwyd yn 2018-19 (StatsCymru)

Ffynonellau:

- [Gofal Cymdeithasol Cymru – proffil gweithlu 2018](#)
- [The future of care in Wales, Wales Fiscal Analysis](#)
- Cyfrifon Blynyddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhan fwyaf ond nid yr holl gostau gofal iechyd parhaus yn ymwneud â lleoliadau cartrefi gofal
- Competitions and Market Authority (CMA) – [Care-homes market study 2017](#)
- [StatsCymru](#)

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithredu'n effeithiol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau comisiynu cartrefi gofal

- 6 Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a thrawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n cynnwys rhai gofynion allweddol o ran comisiynu cartrefi gofal. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio i asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yn eu hardal³. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyhoeddi eu hasesiadau poblogaeth cyfunol cyntaf fel sy'n ofynnol erbyn mis Ebrill 2017. Ar ôl hynny, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol baratoi un adroddiad asesu poblogaeth cyfunol fesul cylch etholiadol llywodraeth leol.
- 7 Yn ogystal â dyletswyddau cydraddoldeb penodol presennol⁴ y sector cyhoeddus ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a ddechreuodd ar 30 Mawrth 2021 yng Nghymru yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys rhai awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol⁵, pan fyddant yn gwneud 'penderfyniadau strategol' i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi mai penderfyniadau strategol yw'r rhai sy'n helpu corff perthnasol i gyflawni ei ddiben statudol a fwriadwyd. Nid oes rhestr gynhwysfawr o benderfyniadau a fydd yn ymgysylltu â'r ddyletswydd, er bod enghreifftiau'n cynnwys datblygu polisiau strategol, penderfyniadau comisiynu mawr megis y rhai ar gyfer comisiynu cartrefi gofal a phennu amcanion llesiant⁶.

3 Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

4 The Public Sector Equality Duty Section 149 of the Equality Act 2010; Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

5 Adran 2(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010; Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021, mae cyrff perthnasol yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol a Chyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol

6 Canllawiau Llywodraeth Cymru – Cymru Fwy Cyfartal – Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2010

- 8 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiadau o sefydlogrwydd y farchnad ond ni phennodd ddyddiad cychwyn ar gyfer y rhain. Mae rheoliadau a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2021 wedi gosod gofynion penodol i gyhoeddi'r adroddiad sefydlogrwydd erbyn 1 Mehefin 2022, chwe blynedd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Felly, mae effaith y gofynion hyn ar gomisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn i'w gweld o hyd.
- 9 Mae Canllawiau Statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ymwneud â threfniadau partneriaethau⁷ yn nodi y dylai byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, mewn cysylltiad â chartrefi gofal, gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth a dadansoddi'r farchnad er mwyn ymgorffori anghenion unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain. Dylent gytuno hefyd ar ddatganiad sefyllfa'r farchnad rhanbarthol integredig priodol a strategaeth gomisiynu ranbarthol. Dylai'r rhain nodi'r canlyniadau sy'n ofynnol gan gartrefi gofal, gan gynnwys yr ystod o wasanaethau sydd eu hangen, a chonsensws ar y dulliau comisiynu. Hefyd, mae'r canllawiau'n nodi y dylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd:
- gytuno ar gontract a manyleb gyffredin.
 - cytuno ar feini prawf a phrosesau monitro contractau cyffredin sy'n cynnwys sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau.
 - datblygu dull integredig o gytuno ar ffioedd gyda darparwyr.
 - datblygu dull integredig o sicrhau ansawdd.
 - mabwysiadu defnydd tryloyw o adnoddau. Mae'n rhaid i gyllidebau fod yn gyson â'r gwariant cyffredinol a nodwyd, ynghyd ag ymrwymadau ariannol y ddwy asiantaeth i gomisiynu cartrefi gofal. Bydd angen i'r trefniadau hyn fod yn ddarostyngedig i gytundeb ysgrifenedig.
- 10 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf – gan gynnwys byrddau iechyd ac awdurdodau lleol – weithio'n wahanol. Mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cydbwysu anghenion tymor byr a hirdymor, ystyried sut mae eu hamcanion yn integreiddio â phartneriaid eraill, cydweithredu, cynnwys rhanddeiliaid, a cheisio dulliau ataliol. Fel y sonnir uchod, wrth gyflawni dyletswyddau presennol a allai fod yn strategol, megis pennu amcanion llesiant, mae'n ofynnol bellach i gyrff perthnasol ddangos eu bod hefyd yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau.

7 Llywodraeth Cymru, Codau a chanllawiau: Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd o dan Adran 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- 11 Yn ein hadroddiad rhanbarthol diweddar ar Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn, gwnaethom argymhell bod Cynghorau'r gogledd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn adolygu eu trefniadau comisiynu ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o ran y Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn benodol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi codi pryderon â Llywodraeth Cymru o'r blaen ynghylch a yw cronfeydd cyfun rhanbarthol, mewn cysylltiad â chartrefi gofal i bobl hŷn, yn rhoi gwerth am arian

- 12 Noda ein hadroddiad mis Gorffennaf 2019 ar Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, cyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chyflwyniad y gronfa yn 2014, fod partneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi archwilio'r potensial o gyfuno arian er mwyn datblygu gwasanaethau integredig. Fodd bynnag, dim ond llond llaw o enghreifftiau ymarferol a gafwyd ac roedd parodrwydd cyrff cyhoeddus allweddol i ryddhau cyllid ar gyfer trefniadau ar y cyd yn rhwystr allweddol.
- 13 Arweiniodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 at sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol statudol a chyda disgwyliad y byddent yn datblygu cronfeydd cyfun. Noda ein hadroddiad ar y Gronfa Gofal Integredig fod cronfeydd cyfun ar gyfer comisiynu darpariaeth cartrefi gofal i oedolion wedi bod ar waith ledled Cymru ers mis Ebrill 2018. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu safbwynt swyddogion Llywodraeth Cymru bod aeddfedu trefniadau partneriaeth oherwydd y Gronfa Gofal Integredig wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer bwrw ymlaen â threfniadau cyllido cyfun. Fodd bynnag, mae'n canfod hefyd nad oedd llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif ffrydio a'u cyllido yn rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau craidd cyrff cyhoeddus.
- 14 Ym mis Medi 2020, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol i Lywodraeth Cymru, gan gopïo'r llythyr at bob prif weithredwr awdurdod lleol a bwrdd iechyd yng Nghymru, yn codi pryderon am gronfeydd cyfun rhanbarthol mewn cysylltiad â chartrefi gofal i bobl hŷn. Daeth y pryderon hyn i'r amlwg o waith archwilio mewn dau o'r awdurdodau lleol yn y gogledd yn gynharach y flwyddyn honno (**paragraff 1**). Er bod cyllid oddi wrth y sefydliadau perthnasol wedi ei adneuo mewn cronfa gyfun a weinyddir gan Gyngor Sir Ddinbych i ddechrau, canfuom fod cyllid pob cyfrannwr wedi ei ddychwelyd iddo 24 awr yn ddiweddarach.

- 15 Cododd ein canfyddiadau rai pryderon sylweddol ynghylch cymhwyso cyllidebau cyfun yn ymarferol ar gyfer darpariaeth cartrefi gofal yn y gogledd, ac yn ehangach yng Nghymru o bosibl. Er nad oeddem wedi profi'r trefniadau mewn rhanbarthau eraill, roeddem yn credu eu bod o natur debyg. O siarad â swyddogion Llywodraeth Cymru ar y pryd, roeddem yn deall bod y trefniad yn y gogledd yn bodloni'r gofynion technegol lleiaf posibl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fodd bynnag, daethom i'r casgliad nad oedd y trefniad yn cynnig gwerth am arian, nac unrhyw un o fanteision ehangach arfaethedig cronfa gyfun. Pwysleisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd nad oeddent yn ystyried y math hwn o drefniad yn ymateb boddhaol i'r bwriad polisi o alluogi cydweithrediad agosach rhwng comisiynwyr cartrefi gofal er budd pobl sy'n derbyn gofal a chymorth.
- 16 Mewn ymateb i lythyr yr Archwilydd Cyffredinol, dywedwyd wrtho fod y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [ar y pryd] eisoes wedi trafod y materion hyn â chadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac wedi herio partneriaid rhanbarthol i gynyddu'r ddarpariaeth.
- 17 Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad [Fframwaith Gwerthuso Cyllidebau Cyfun](#) (y Fframwaith). Roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r adroddiad i asesu'r cynnydd yr oedd pob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ei wneud o ran datblygu cronfeydd cyfun. Canolbwyntia'r adolygiad ar ddefnyddio cyllidebau cyfun sy'n ymwneud â llety mewn cartrefi gofal i bobl hŷn (65 oed neu'n hŷn).
- 18 Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn bodloni'r gofyniad sylfaenol at ei gilydd mewn cysylltiad â'r cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn, ond nad oedd llawer o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyfuno'r cyllidebau'n ffisegol nac yn rhannu risgiau ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn. Dim ond dau o'r saith rhanbarth yng Nghymru sy'n cyfuno arian yn ffisegol ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn, a thynnodd mwyafrif y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sylw at gartrefi gofal i bobl hŷn fel maes cyntaf heriol i gyfuno arian, o dan y ddeddfwriaeth sy'n dangos lefelau gwahanol o aeddfedrwydd ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae rhai o'r heriau allweddol a amlygir yn y Fframwaith yn ymwneud â rheoli carfan amrywiol o anghenion ar draws ardaloedd yn hytrach na gwasanaethau arbenigol, yr oeddent yn ystyried eu bod yn fwy addas ar gyfer dull cyfun o weithredu, a'r risg o groesgymorthdalau ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

- 19 Canfuom drwy ein gwaith rhanbarthol yn y gogledd nad oedd ymateb Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y gogledd i'r Dirprwy Weinidog yn rhoi unrhyw sicrwydd bod partneriaid yn bwriadu gweithredu yn y tymor byr i fynd i'r afael â phryder yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd yr ymateb yn dangos nad oedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'w drefniadau cyllideb cyfun nes bod Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â'i chynigion Papur Gwyn ar Ailgydbwyso gofal a chymorth. Deallwn fod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnal deialog barhaus gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y ffordd orau o weithredu'r Ddeddf yn ehangach, ac nid mewn cysylltiad â chronfeydd cyfun yn unig.
- 20 Yn 2020-21, rydym wedi gweld llawer o enghreifftiau o bartneriaid yn dod at ei gilydd yn effeithiol mewn amgylcheddau hynod gymhleth a heriol. Er enghraifft, datblygu gwasanaeth profi, olrhain a diogelu a gwasanaeth brechu newydd COVID-19. Mae ewyllys da ac ymrwymiad partneriaid wedi arwain at welliant.
- 21 Mae hyn, a rhywfaint o'n gwaith cynharach ar y Gronfa Gofal Integredig, yn awgrymu, pan fo partneriaid yn dod at ei gilydd i reoli cyllid ychwanegol ar y cyd, eu bod wedi cael rhywfaint o lwyddiant ond pan fyddant yn dod at ei gilydd i rannu eu hadnoddau craidd eu hunain, eu bod wedi cael llawer llai o lwyddiant. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gydweithredu a chyfuno cronfeydd ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn, cyfyngedig yw'r cynnydd ac nid yw'r defnyddwyr gwasanaethau yn gweld fawr o fudd, os o gwbl.

Nododd ein gwaith ar gomisiynu lleoliadau cartrefi gofal i bobl hŷn ar draws y gogledd rai materion sylfaenol sy'n debygol o gael eu hadlewyrchu ledled Cymru i ryw raddau

- 22 Yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hadolygiad blaenorol o'r Gronfa Gofal Integredig ac adroddiad Fframwaith Gwerthuso Cyllidebau Cyfun Llywodraeth Cymru, rhagwelwn y bydd canfyddiadau ein hadolygiad o'r gogledd yn cael eu hadlewyrchu ledled Cymru i ryw raddau. Yn ein gwaith diweddaraf yng ngogledd Cymru, daethom i'r casgliad bod **partneriaid yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i ddarparu lleoliadau cartrefi gofal i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n agored i niwed; gwneir hyn yn anoddach gan brosesau cenedlaethol cymhleth, gan arwain at bwyslais sylweddol ar gostau, sy'n achosi rhaniadau ymhlith partneriaid ac sydd â'r potensial i gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Mae gan y broses o gryfhau atebolrwydd a datblygu strategaeth a chynllun cyflawni rhanbarthol y potensial i ysgogi newid cadarnhaol a gweithio gwell mewn partneriaeth, yn enwedig mewn cysylltiad â gofal cymhleth a mwy arbenigol.**

- 23 Er bod lle i wella yng ngogledd Cymru, pan fo partneriaid rhanbarthol yn gyfrifol am y ffordd y gweithredir deddfwriaeth, fframweithiau a pholisïau cenedlaethol, mae rhai o'r materion sylfaenol yn codi oherwydd fframweithiau deddfwriaethol cenedlaethol hirsefydlog a threfniadau polisïau a chyllido.
- 24 Crynhoir canfyddiadau ein gwaith rhanbarthol a'n dadansoddiad Cymru gyfan ychwanegol fel a ganlyn:
- **Mae gallu pobl hŷn i gael mynediad at gartrefi gofal yn gymhleth ac yn anodd ei lywio.** Mae comisiynwyr yn ymwybodol o'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau ond nid ydynt wedi gallu symleiddio'r broses; Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r polisïau a'r canllawiau cyffredinol.
 - **Gall dulliau'r sector cyhoeddus o gyllido gwahanol agweddau ar ofal greu ymraniad ymhlith partneriaid.** Mae lleoliadau cartrefi gofal yn gostus, a all annog gorbwyslais ar gost; er y gall gweithredu'r dull gweithredu ar lefel leol gynyddu tensiynau, Llywodraeth Cymru sy'n nodi sail y cyfrifoldebau cyllido.
 - **Nid yw'r manteision a fwriadwyd a'r cyflawniad gwirioneddol wedi eu meintoli.** Mae gwybodaeth am berfformiad a gesglir ac a adroddir, sy'n ymwneud â chomisiynu iechyd a gofal cymdeithasol, yn dameidiog ar draws sectorau ac nid yw'n darparu dangosydd da o ran a yw nodau polisïau a llesiant yn cael eu cyflawni ac nid oes unrhyw dystiolaeth o newidiadau i ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd â chadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid yn rheolaidd i asesu cynnydd o ran gweithredu polisïau cenedlaethol, ond nid yw Llywodraeth Cymru na phartneriaid rhanbarthol wedi datblygu fframwaith perfformiad ar gyfer asesu canlyniadau.
 - **Nid yw'r cydymffurfio technegol lleiaf â'r gofyniad cronfa gyfun yn sicrhau unrhyw fudd gwirioneddol.** Mae cydymffurfio â'r gyfraith heb gyflawni unrhyw fanteision o'r trefniad yn ddefnydd gwael o arian cyhoeddus ac yn werth gwael am arian. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r cynnydd cyffredinol o ran gweithredu trefniadau cronfa gyfun ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn. Mae wedi datblygu pecyn offer a lanswyd drwy Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i helpu i fynd i'r afael â'r heriau. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael fawr o effaith ac nid yw trefniadau cronfeydd cyfun yn cael eu cryfhau'n gyffredinol tra bod y papur gwyn ar ailgydbwysu gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu.

- **Mae'r broses llywodraethu a gweithredu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn aeddfedu ond, yn unol â deddfwriaeth, mae strwythurau'n helaeth ac yn gymhleth, a cheir problemau o hyd ynghylch eu hatebolrwydd.** Yn dilyn ein gwaith yn y Gronfa Gofal Integredig, roedd disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (yn unol â Chanllawiau y Gronfa Gofal Integredig 2020-21) fod wedi bod yn rhoi trefniadau ar waith i gefnogi gwaith craffu effeithiol ar eu penderfyniadau. Hefyd, mae ein gwaith yn y gogledd wedi herio llywodraethu ac atebolrwydd yn ehangach. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth o ran nodi sut y dylid eu dwyn i gyfrif a'u dwyn i gyfrif am gyflawni polisiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gan bartneriaid y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyfrifoldeb dros sicrhau bod cytundebau allweddol yn cael eu craffu a'u cymeradwyo'n briodol hefyd, gan ddefnyddio trefniadau llywodraethu eu sefydliadau eu hunain.
 - **Ceir amrywiad anesboniadwy mewn gwariant ar ofal preswyl a chostau gofal iechyd parhaus, sy'n awgrymu bod polisiau'n cael eu cymhwyso'n annheg ledled Cymru.** Bydd ffactorau megis gwneud penderfyniadau lleol a'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael i gefnogi pobl i fyw yn y gymuned yn effeithio ar wariant lleol ar leoliadau cartrefi gofal. Mae **Atodiad 1** yn dangos yr amrywiadau hyn yn fanylach.
 - **Mae'r cap ar godi tâl ar gyfraniadau defnyddwyr gwasanaeth yn wahanol ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal o'i gymharu â phobl a gefnogir yn y gymuned.** Mae hyn yn rhoi cymhelliad gwrthnysig posibl i gomi-siynwyr leoli person mewn cartref gofal, neu i berson ddewis aros gartref, fel y byddai'n well gan lawer.
- 25 Er bod mwyafrif y swyddogion awdurdodau lleol a byrddau iechyd y buom yn siarad â nhw yn ystod ein hadolygiad yng ngogledd Cymru yn gallu disgrifio'r problemau o'u profiadau, nid oedd yr un ohonynt yn teimlo y gallai gael unrhyw ddylanwad nac effaith ar raddfa'r newidiadau sydd eu hangen o fewn y fframwaith polisi cenedlaethol. O ganlyniad i hynny, roeddent yn derbyn ar y cyd yr angen i wneud y gorau o'r sefyllfa bresennol a gobeithio am newid.

Mae cyfle amserol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith diwygio cynlluniedig yn datrys rhai o'r materion hirsefydlog a heriol sy'n ymwneud â chomisiynu cartrefi gofal a gofal integredig

- 26 Ym mis Ebrill 2021, cwblhaodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghoriad ar ei phapur gwyn Ailgydbwyso gofal a chymorth (**paragraff 20**). Cynigiodd y papur gwyn fframwaith cenedlaethol, trefniadaeth ranbarthol a rhagor o bwerau i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Gwnaethom ymateb i Lywodraeth Cymru yn rhan o'i hymgyngoriad, gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol o'n gwaith archwilio.
- 27 Mae'r materion a amlygwyd o'n gwaith diweddaraf ar gomisiynu cartrefi gofal yn y gogledd yn dangos nad yw'r ddeddfwriaeth a'r polisïau presennol yn cael yr effaith gadarnhaol a ddymunir. Fodd bynnag, maent hefyd yn cyfeirio at rai materion ymarferol ac amharodrwydd diwylliannol a allai gwestiynu a yw'r cynigion yn y papur gwyn yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol hyn. Wrth wraidd ein canfyddiadau, mae cyfrifoldebau ac atebolrwydd cyllidebol annibynnol ac ar wahân yn creu ymraniad, sy'n arwain at ganolbwyntio ar gost, ac yn gofyn am lwybrau cymhleth i'w llywio a all gael effaith negyddol ar lesiant defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio sylfaen y ddeddfwriaeth a'r polisïau sy'n achosi'r materion hyn, ond mae angen iddi sicrhau ei hun bod y newidiadau'n mynd yn ddigon pell i'w datrys nhw.
- 28 Mae'r pandemig wedi amlygu breuder gwasanaethau gofal ledled Cymru, ond roedd mwyafrif y materion a wynebier yn awr yno o'r blaen i ryw raddau. Mae'r materion yn cynnwys capasiti a gallu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i hwyluso gweithio rhanbarthol ac, er enghraifft, pryderon ynghylch lefelau ffioedd, a ystyrir gan gynghorau i fod yn faterion lleol yn hytrach na materion rhanbarthol neu genedlaethol. Dywedwyd wrthym yn ystod ein hadolygiad nad yw dull rhanbarthol yn gweddu i gomisiynu cartrefi gofal bob amser. Nid yw'n glir a yw'r atebion a gynigir gan y papur gwyn ar ailgydbwyso gofal a chymorth mewn cysylltiad â gweithio rhanbarthol yn ymarferol ac y byddant yn cyflawni'r newid gofynnol.
- 29 Mae cyfle yn awr i adeiladu consensws ymhlith darparwyr, comisiynwyr, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd, ynglŷn â'r newidiadau sy'n angenrheidiol i gyflawni gwelliannau y mae mawr eu hangen, gan sicrhau bod y rhain yn mynd i'r afael yn llawn â'r holl faterion sy'n aros yn y sector.

Argymhellion

Arddangosyn 2: argymhellion

Argymhellion

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- A1 ystyried beth y mae'r canfyddiadau o'n gwaith yn y gogledd yn ei olygu ar gyfer diwygio polisïau arfaethedig ac a fydd y gwaith diwygio hwn yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y materion; ac
- A2 yn fwy penodol, dylai:
- leihau cymhlethdod y cyfrifoldebau ariannu ar draws partneriaid er mwyn symleiddio trefniadau;
 - disgrifio a chyfleu'n glir sut y mae'n disgwyl i gronfeydd cyfun weithredu ar draws partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol;
 - cymryd camau i fynnu trefniadau craffu cryfach ac atebolrwydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (gan eu dilyn â chamau ychwanegol mewn ymateb i argymhelliad yn ein hadroddiad blaenorol ar y Gronfa Gofal Integredig); a
 - datblygu fframwaith ar gyfer adrodd ar berfformiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau, sy'n cysylltu ag uchelgais polisïau a'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru.




Atodiadau


- 1 Gwariant ar leoliadau cartrefi gofal a gomisiynwyd ledled Cymru

1 Gwariant ar leoliadau cartrefi gofal a gomisiynwyd ledled Cymru

Arddangosyn 3: y gwariant net (£) ar leoliadau gofal preswyl (ac eithrio gofal nyrσιο) ar gyfer pobl 65 oed a hŷn fesul 1,000 o'r boblogaeth (2019-20)



Ffynhonnell: StatsCymru – Gwariant alldro refeniw y gwasanaethau cymdeithasol fesul grŵp cleientiaid (Pobl Hŷn, lleoliadau gofal preswyl) ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2019 (yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar 31 Awst 2021)

Arddangosyn 4: gwariant gofal iechyd parhaus (£) fesul 1,000 o'r boblogaeth, 2019-20

Ffynhonnell: Cyfrifon Blyneddol y Bwrdd Iechyd ac Ystadegau Poblogaeth Stats Cymru



Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Eitem 7


Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cydweithio Rhwng y Gwasanaethau Brys

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ionawr 2022



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

